# Cwestiynau llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Chwefror 2014 i'w hateb ar 4 Mawrth 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. **Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â datblygu cyfleusterau chwaraeon yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0131(CS)**W**

2. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0126(CS)

3. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bêl-droed llawr gwlad ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0124(CS)

4. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru yn 2014/15? OAQ(4)0123(CS)

5. **Lynne Neagle (Torfaen):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd chwaraeon yn Nhorfaen? OAQ(4)0135(CS)

6. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y menywod sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon? OAQ(4)0119(CS)

**7. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd? OAQ(4)0125(CS)**W**

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)0127(CS)**W**

9. **Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnal safonau llyfrgelloedd yng Nghymru? OAQ(4)0129(CS)**W**

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol Cymru am effaith toriadau yn y gyllideb ar gyfleusterau diwylliannol? OAQ(4)0133(CS)

**11. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo amgueddfeydd cyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0134(CS)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Caerdydd mewn perthynas â Chaerdydd fel prifddinas chwaraeon Ewrop yn 2014? OAQ(4)0132(CS)

**13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu ar gyfer capeli sy'n cael ei gynnal gan CADW? OAQ(4)0130(CS)

**14. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo'r defnydd o amgueddfeydd ac orielau gan blant a phobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)0128(CS)

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau i bobl ifanc mewn chwaraeon yn Sir Benfro? OAQ(4)0122(CS)